

Asesiad o werth economaidd Menter Caerdydd i brifddinas Cymru

An assessment of Menter Caerdydd's economic value to Cardiff

Adroddiad terfynol

Cyflwynwyd i Fenter Caerdydd gan Ymchwil
Arad

Gorffennaf 2016

Arad Research
8 Columbus Walk
Brigantine Place
Cardiff / Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.aradresearch.com

ymchwil
arad
research

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
1.1 Menter Caerdydd	3
1.2 Tafwyl	3
2. Canfyddiadau allweddol	5
3. Ein dull gweithredu	6
3.1 Trosolwg o'r fethodoleg	6
3.2 Ffynonellau data.....	6
4. Canfyddiadau	8
4.1 Gwybodaeth gyd-destunol.....	8
4.2 Cyfanswm gwerth economaidd a'r elw o fuddsoddiad	8
4.3 Gwerth economaidd uniongyrchol	9
4.4 Gwerth economaidd anuniongyrchol	9
4.5 Gwerth economaidd wedi'i ysgogi	9
5. Ymateb Menter Caerdydd	11
Ymateb i'r ymchwil gan Sian Lewis, Prif Weithredwr	11

1. Cyflwyniad

Comisiynodd Menter Caerdydd Ymchwil Arad i gynnal asesiad o werth economaidd y sefydliad i ddinas Caerdydd. Rhydd yr adroddiad hwn ganfyddiadau'r dadansoddiad yn ogystal ag ymateb Menter Caerdydd i'r astudiaeth.

1.1 Menter Caerdydd

Cafodd Menter Caerdydd ei sefydlu ym mis Mehefin 1998, gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd drwy greu cyfleoedd i drigolion y ddinas ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau gwaith a gatiâu'r ysgol.

Mae Menter Caerdydd yn darparu gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth â nifer fawr o sefydliadau Cymraeg yng Nghaerdydd, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y Ddinas y mae eu ffocws yn ehangach na chyflwyno gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Prif bartneriaid Menter Caerdydd yw Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd sy'n gyfrifol am ariannu nifer o'r gwasanaethau a gynigir ganddo drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Ddinas. Mae'n elusen gofrestredig ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant.

Mae gwaith craidd Menter Caerdydd yn cwmpasu chwe blaenoriaeth, sef:

- Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Meithrin hyder a newid agweddau pobl tuag at y Gymraeg
- Atgyfnerthu'r Gymraeg a'i defnydd o fewn teuluoedd
- Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion
- Datblygu Gwyliau Cymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Sicrhau bod gan y Gymraeg lwyfan gweledol ar lefel ddigidol

Mae gwasanaethau a gweithgareddau Menter Caerdydd yn cynnwys clybiau wythnosol i blant, cyfleoedd chwarae am ddim a gweithdai a Chynlluniau Gofal yn ystod y Gwyliau, cyfleoedd a gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr a theuluoedd, Tafwyl - gŵyl Gymraeg Caerdydd.

Drwy ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau hyn, mae Menter Caerdydd yn cwmpasu prif flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd o ran yr iaith, teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithle.

1.2 Tafwyl

Tafwyl yw'r ŵyl gelfyddydol a diwylliannol flynyddol a sefydlwyd gan Fenter Caerdydd yn 2006 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn 2012 symudodd Tafwyl o'r Mochyn Du, daeth yn rhan o 'Gŵyl Haf Caerdydd' Cyngor Caerdydd a chafodd ei chynnal yng Nghastell Caerdydd am y tro cyntaf. Mae Tafwyl wedi cynyddu mewn poblogrwydd i raddau anhygoel dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o 1,500 yn y Mochyn Du i fwy na 35,000 yn nigwyddiad y llynedd.

Yn 2015 y prif nod oedd adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl drwy gynnal y digwyddiad dros gyfnod o ddeuddydd unwaith eto yn un o brif atyniadau treftadaeth Cymru - Castell Caerdydd - yn ogystal â pharhau i gynnig mynediad am ddim.

Mae nodau'r ŵyl, fel y nodwyd gan y trefnwyr, fel a ganlyn:

1. Codi proffil y Gymraeg yng Nghaerdydd drwy roi'r cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion glywed a siarad yr iaith yn ein prifddinas.
2. Cyflwyno diwylliant Cymreig/Cymraeg mewn amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol llawn hwyl.
3. Creu cyfleoedd i'r cyhoedd fagu hyder yn eu Cymraeg a dod i gysylltiad â'r iaith.
4. Targedu cynulleidfaoedd ar wahân, gyda gweithgareddau ar gyfer pob grŵp. Dylai oedolion ystyried bod yr ŵyl yn ddigon soffistigedig iddynt ei mwynhau, ond ei bod hefyd yn hwyl i blant.
5. Cynyddu nifer y gweithgareddau sydd ar gael i blant a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.
6. Cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned.
7. Cynyddu a gwella gwasanaethau i ddinasyddion Cymru.
8. Cael ei hystyried yn ŵyl o'r radd flaenaf.
9. Sefydlu proffil cenedlaethol.

2. Canfyddiadau allweddol

Dengys prif ganfyddiadau'r astudiaeth y canlynol:

- Yn ôl yr amcangyfrifon, cynhyrchodd Menter Caerdydd **werth economaidd o £1.9m yng Nghaerdydd** yn 2014-15;
- Ar gyfartaledd, gwariodd y rheini a wnaeth ymweld â Thafwyl y swm amcangyfrifedig o £46 ar nwyddau a gwasanaethau o fusnesau yng Nghaerdydd gan gynhyrchu **gwerth economaidd anuniongyrchol o ychydig dros £1m**;
- Cynhyrchodd Menter Caerdydd **elw o fuddsoddiad o £2.66 am bob punt** o incwm a gafwyd yn 2014-15.

Pan gaiff yr elw hwn o fuddsoddiad ei gymhwyso i ffynonellau incwm unigol ar gyfer Menter Caerdydd, gallwn briodoli'r gyfran ganlynol o gyfanswm gwerth economaidd Menter Caerdydd i'r ffynonellau ariannu isod:

- Cynhyrchodd £246,000 a ddarparwyd gan Gyngor Caerdydd elw o £653,000;
- Cynhyrchodd £161,000 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru elw o £428,000.

3. Ein dull gweithredu

3.1 Trosolwg o'r fethodoleg

Mae ein dadansoddiad economaidd, sy'n canolbwyntio ar effaith economaidd Menter Caerdydd, yn seiliedig ar y canlynol:

- Gweithgareddau busnes craidd Menter Caerdydd (effaith uniongyrchol);
- Incwm a gwariant a gynhyrchwyd drwy ŵyl Tafwyl 2015 a drefnwyd gan Fenter Caerdydd yn y ddinas (effeithiau anuniongyrchol)¹;
- Cyfraniadau incwm a wnaed ar hyd y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i weithgarwch craidd Menter Caerdydd (effeithiau a ysgogwyd).

Mae'r amcangyfrif o'r gwerth economaidd cyffredinol yn seiliedig ar Effaith Luosogi Keynes. Mae'r effaith hon yn ystyried gwariant lleol cychwynnol Menter Caerdydd ac yn cydnabod bod y gwariant hwn yn creu incwm i fusnesau eraill o fewn yr economi. Yn ei dro mae'r incwm hwn yn esgor ar wariant pellach, ac mae'r broses yn parhau nes i'r lefel o incwm lleol a gynhyrchir gan wariant dilynol ddod yn ddibwys. Mae ffigurau deilliannol gwerth economaidd yn adlewyrchu'r lefelau gorau neu uchaf o effaith economaidd sy'n debygol o gael ei chreu gan yr hyn a gyfrannodd Menter Caerdydd at yr economi yng Nghaerdydd yn ystod 2014-15.

Mae'r holl ganfyddiadau yn seiliedig ar ddata ar wariant yn ymwneud â 2014-15 oni nodir fel arall. Mae'r astudiaeth wedi cynnwys ymchwil sylfaenol ac eilaidd, gan ddefnyddio'r canlynol:

- Data ar wariant Menter Caerdydd;
- Data a gasglwyd gan Fenter Caerdydd o ymwelwyr a chyflenwyr Tafwyl 2015;
- Arolwg o staff Menter Caerdydd;
- Arolwg o gyflenwyr Menter Caerdydd.

3.2 Ffynonellau data

Cafwyd data ar wariant uniongyrchol gan Fenter Caerdydd yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2014-15. At ddibenion yr astudiaeth hon, ystyriwn mai'r gwariant hwn yw effaith gychwynnol gwariant uniongyrchol. Roedd y data a ddarparwyd gan Fenter Caerdydd yn cynnwys dadansoddiad o'r gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a brynwyd oddi wrth gwmnïau unigol yng Nghaerdydd. Drwy wneud hyn bu modd i ni asesu'r effaith economaidd a grëwyd yn y brifddinas.

Cafodd data o arolwg o 198 o ymwelwyr â gŵyl Tafwyl 2015 eu dadansoddi fel rhan o'r astudiaeth hon. Cynhaliwyd yr arolwg gan Fenter Caerdydd gan ddefnyddio cyfuniad o gyfweiliadau wyneb yn wyneb ar safle'r ŵyl ac e-arolwg a anfonwyd at ymwelwyr yn fuan ar

¹ Tafwyl yw'r ŵyl flynyddol a sefydlwyd gan Fenter Caerdydd yn 2006 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Gweler www.tafwyl.org.

ôl y digwyddiad. Roedd holiadur yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am y swm cyfartalog o arian a wariwyd gan ymwelwyr ar wahanol gategoriâu o nwyddau a gwasanaethau.

Hefyd cynhaliodd Ymchwil Arad arolwg o gwmnïau yng Nghaerdydd a oedd wedi darparu nwyddau neu wasanaethau i Fenter Caerdydd yn ystod 2014-15. Cynhaliwyd yr arolwg drwy gyfuniad o e-arolwg, holiaduron papur a chyfweliadau dros y ffôn. Cwblhaodd 25 o gwmnïau'r arolwg (cyfradd ymateb o 39%).² Hefyd cynhaliodd Ymchwil Arad arolwg o staff Menter Caerdydd (a oedd yn cynnwys cyflogeion a staff dros dro a gyflogwyd yn ystod 2014-15) fel rhan o'r astudiaeth hon. Cwblhaodd 23 o aelodau o staff yr holiadur (cyfradd ymateb o 24%). Llywiodd y data o'r ddau arolwg ein dadansoddiad o'r gwerth economaidd a ysgogwyd gan Fenter Caerdydd.

² Dechreuodd deg cwmni arall gwblhau'r holiadur ond ni wnaethant roi digon o wybodaeth i'w cynnwys yn y dadansoddiad economaidd.

4. Canfyddiadau

Mae canfyddiadau'r ymchwil hon yn dangos bod Menter Caerdydd yn cynhyrchu gwerth economaidd uniongyrchol drwy ei gwariant, gwerth economaidd anuniongyrchol drwy ei rôl yn trefnu gŵyl Tafwyl a thrwy gael effeithiau wedi'u hysgogi neu sgil-effeithiau ar economi ehangach Caerdydd. Crynhoir yr effeithiau hyn isod:³

4.1 Gwybodaeth gyd-destunol

4.1.1 Menter Caerdydd

Mae Menter Caerdydd yn cyflogi wyth aelod o staff ar gontractau parhaol a 132 o aelodau o staff dros dro i weithio o fewn ei holl wasanaethau. Mae 75 y cant o'r staff hyn rhwng 18 a 25 oed - fel rheol hon fydd eu swydd gyntaf yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan feithrin eu hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd gwaith. Mae Menter Caerdydd hefyd yn cynnig hyfforddiant i'w holl staff er mwyn iddynt uwchsgilio, ennill profiad a chael y cyfle i ennill cymhwyster pellach.

Bob blwyddyn, bydd Menter Caerdydd yn trefnu rhaglen o fwy na 1200 o weithgareddau unigol gan gyrraedd 40,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithio gydag 88 o bartneriaid a rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol

4.1.2 Tafwyl

Denodd Tafwyl 2015 35,500 o bobl (dros naw diwrnod), sef cynnydd o 90% o gymharu â'r 18,717 o ymwelwyr a gafwyd yn 2014. Daeth 22,000 i Ffair Tafwyl ar y dydd Sadwrn a daeth 12,000 ar y dydd Sul. Nifer y gynulleidfa darged oedd 25,000 - gyda'r ffigur gwirioneddol 54% yn uwch na'r disgwyl. Roedd lefelau presenoldeb yn ystod gŵyl ymylol yr wythnos hefyd yn uchel gyda 1,500 yn mwynhau 29 o ddigwyddiadau ledled y ddinas. Felly, cafwyd mwy na 35,500 o ymwelwyr ar gyfer Ffair Tafwyl a Gŵyl Ymylol Tafwyl.

Mae Tafwyl yn bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol a rhydd lwyfan i'r Gymraeg yn y brifddinas.

Sicraodd Tafwyl nawdd o £28,975 yn 2015, 52% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae llawer o'r noddwyr, gan gynnwys Capital Law a Park Plaza, wedi cytuno i noddi Tafwyl am dair blynedd.

4.2 Cyfanswm gwerth economaidd a'r elw o fuddsoddiad

Yn ôl yr amcangyfrifon, cynhyrchodd Menter Caerdydd **gyfanswm gwerth economaidd o £1.9m yng Nghaerdydd** (£1,887,024) yn 2014-15. Mae hyn yn cynnwys ei gwerth economaidd uniongyrchol, ei gwerth economaidd anuniongyrchol (drwy Tafwyl) a'i gwerth economaidd wedi'i ysgogi, a ddisgrifir yn eu tro isod.

³ Talgrynnwyd y ffigurau at ddibenion cyflwyniadol.

Derbyniodd Menter Caerdydd incwm o £709,000 (£709,460) yn 2014-15.⁴ Dengys y cyfraniad economaidd o £1.9m i Gaerdydd fod Menter Caerdydd wedi cynhyrchu **elw o fuddsoddiad o £2.66 am bob punt** o incwm a gafwyd.

4.3 Gwerth economaidd uniongyrchol

Yn 2014-15, gwariodd Menter Caerdydd **£438,000 yn uniongyrchol ar nwyddau a gwasanaethau o gwmnïau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a staff sy'n byw yng Nghaerdydd**. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfanswm o fwy na £220,000 a wariwyd gan Fenter Caerdydd ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghaerdydd (gan gynrychioli 59% o holl wariant y sefydliad ar nwyddau a gwasanaethau)
- taliadau o £218,000 i staff (gan gynnwys cyflogaion a staff dros dro) wedi'u lleoli yng Nghaerdydd (gan gynrychioli 65% o holl wariant Menter Caerdydd ar staff).

4.4 Gwerth economaidd anuniongyrchol

Ar gyfartaledd, gwariodd y rheini a wnaeth ymweld â Thafwyl y swm amcangyfrifedig o £46 ar nwyddau a gwasanaethau o fusnesau yng Nghaerdydd gan gynhyrchu **gwerth economaidd anuniongyrchol o ychydig dros £1m** (£1,039,708) yn y brifddinas. Roedd hyn yn cynnwys gwariant ar fwyd a diod yn yr ŵyl, stondinau crefft, trafndiaeth, llety a bariau a bwytai yng Nghaerdydd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys yr hyn a wariodd ymwelwyr Tafwyl ar fusnesau nas lleolir yng Nghaerdydd (e.e. stondinau busnesau wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd, costau trafndiaeth i ymwelwyr o'r tu allan i Gaerdydd).⁵

4.5 Gwerth economaidd wedi'i ysgogi

Arweiniodd y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol hwn o £1.5m (£1,478,139) at ragor o **wariant wedi'i ysgogi o £409,000** (£408,885). Cafwyd tystiolaeth bellach o'r effaith hon wedi'i hysgogi yn ymatebion cwmnïau i'r arolwg o gyflenwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon. Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o gwmnïau o'r farn bod Menter Caerdydd wedi cael effaith economaidd gadarnhaol ar bob un o'r canlynol:

- Ennill gwaith neu gontractau newydd;
- Ennill cwsmeriaid neu gleientiaid newydd;
- Cael mynediad i farchnadoedd newydd;
- Cynyddu trosiant;

⁴ Daeth tua thraean o hyn (35%) o Gyngor Caerdydd, daeth tua chwarter (23%) o Lywodraeth Cymru a daeth 43% o ffynonellau eraill.

⁵ Dengys data gan Fenter Caerdydd fod 16 o'r 29 o stondinau yn perthyn i fusnesau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a bod wyth allan o'r naw busnes bwyd a diod yn yr ŵyl yn dod o Gaerdydd.

- Cynyddu elw.

5. Ymateb Menter Caerdydd

Ymateb i'r ymchwil gan Sian Lewis, Prif Weithredwr

Mae gwaith Menter Caerdydd yn cyfrannu at amrywiaeth o feysydd polisi a strategaethau lleol a chenedlaethol. O ran polisiau Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfrannu at y gwaith o weithredu'r polisiau canlynol yn llwyddiannus:

- **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** Mae Llywodraeth Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr wella eu sgiliau iaith a'r angen i gynyddu a hwyluso cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg y tu allan i leoliadau addysgol ffurfiol.
- **Strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017 Iaith Fyw, Iaith Byw** Y nod yw cynyddu nifer y gweithgareddau Cymraeg sydd ar gael i blant a phobl ifanc a gweld y Gymraeg yn iaith fyw yng Nghymru a chynyddu statws yr iaith yn ein cymunedau.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** Mae gan Gymru ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac yn annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau.
- **Cynllun Gweithredu Caerdydd Ddwieithog 2014 – 2017 (Cyngor Caerdydd)** Mae'r dull arloesol newydd hwn yn ymwneud â chwalu rhwystrau rhwng yr iaith Gymraeg a Saesneg, hyrwyddo dwyieithrwydd fel rhywbeth hollol naturiol ac ymfalchïo yn y ddwy iaith swyddogol yma yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau bod ein gwledigaeth o Gaerdydd gynyddol ddwyieithog yn cael ei gwireddu.
- **'Strategaeth 2010:2020' Cyngor Caerdydd** I blant a phobl ifanc, mae'n lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo yn rhywle i fwynhau eu plentyndod a'u hieuenctid. Mae hefyd yn golygu gallu cael mynediad i amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Caerdydd yn ddinas ddwyieithog ac, o ganlyniad, mae partneriaid yn parhau i fod wedi'u hymrwymo i ateb y galw cynyddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg

O ran polisiau Cyngor Caerdydd, rydym yn cyfrannu at y gwaith o weithredu'r polisiau canlynol yn llwyddiannus:

- **Cynllun Gweithredu Caerdydd Ddwieithog 2014 – 2017 (Cyngor Caerdydd)** "Mae'r dull arloesol newydd hwn yn ymwneud â chwalu rhwystrau rhwng yr iaith Gymraeg a Saesneg, hyrwyddo dwyieithrwydd fel rhywbeth hollol naturiol ac ymfalchïo yn y ddwy iaith swyddogol yma yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau bod ein gwledigaeth o Gaerdydd gynyddol ddwyieithog yn cael ei gwireddu."
- **'Strategaeth 2010:2020' Cyngor Caerdydd** "I blant a phobl ifanc, mae'n lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo yn rhywle i fwynhau eu plentyndod a'u hieuenctid. Mae hefyd yn golygu gallu cael mynediad i amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Caerdydd yn ddinas ddwyieithog ac, o ganlyniad, mae partneriaid yn parhau i fod wedi'u hymrwymo i ateb y galw cynyddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg"

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd a Llywodraeth newydd Cymru er mwyn gweithredu eu dyheadau polisi mewn nifer o feysydd portffolio.

Mae cynllun corfforaethol Menter Caerdydd ar gyfer 2016 – 2019 yn nodi pedwar maes gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Strategaethau Lleol Cyngor Caerdydd a Strategaethau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sef:

- Y Teulu
- Plant a Phobl Ifanc
- Y Gymuned
- Y Gweithle

Bydd gwerth y 'gweithle' yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod wrth i Fenter Caerdydd flaenoriaethu partneriaethau allweddol gyda Chyngor Caerdydd, y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, Prifysgol Caerdydd ac Agored Cymru er mwyn cynnal rhaglenni sydd wedi'u teilwra i uwchsgilio unigolion i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg er mwyn gwella eu siawns o gael gwaith ac ennill cymwysterau.

Drwy weithio gyda'r partneriaid allweddol hyn, bydd Menter Caerdydd yn darparu hyfforddiant, cyngor, gwybodaeth a chymorth ymarferol er mwyn sicrhau bod ceiswyr gwaith yn gweld pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Wrth i fwy o gyflogwyr geisio recriwtio mwy o staff â sgiliau Cymraeg er mwyn cydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg, bydd yr agwedd hon ar ein gwaith yn dod yn fwyfwy pwysig ac arwyddocaol.

Mae ein blaenoriaethau gwasanaeth ar gyfer 2016 – 2019 fel a ganlyn:

- **Datblygu a chydlynu gweithgareddau Cymraeg (diwylliant a hamdden) ar gyfer y gymuned gyfan**
- **Datblygu gwasanaethau sy'n cynnig cyflogaeth a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc er mwyn atgyfnerthu gwerth yr iaith yn eu bywydau bob dydd a'u gwaith**
- **Hyrwyddo ac atgyfnerthu gwerth yr iaith ymhlith teuluoedd.**
- **Gweithio gyda phartneriaid masnachol a gwirfoddolwyr er mwyn datblygu Tafwyl**
- **Arwain ar brosiect Yr Hen Lyfrgell, gan redeg canolfan o'r safon uchaf sy'n creu argraff gadarnhaol yn y brifddinas ar lefel gymunedol, lefel fusnes a lefel economaidd**
- **Datblygu ein llwyfannau digidol (gwefannau, cronfa ddata echlysur a'n rhwydweithiau cymdeithasol) er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd**
- **Helpu allan wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Chaerdydd yn 2018, a manteisio ar hynny, er mwyn codi proffil y Gymraeg ymhlith cymunedau Caerdydd.**

Rydym yn hyderus bod y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn sy'n amlinellu gwerth economaidd Menter Caerdydd i'r brifddinas yn atgyfnerthu bod y sefydliad nid yn unig yn brif gyfrwng i gyflawni amcanion polisi allweddol Cyngor Caerdydd fel y nodir uchod ac yn bartner canolog yn y gwaith o gyflawni meysydd polisi Llywodraeth Cymru, ond ei fod hefyd yn darparu gwerth am arian drwy ei waith ac yn cynnig gwerth economaidd i Gaerdydd. Edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith hwn dros y blynyddoedd i ddod.